Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pontrhydfendigaid

**Neuadd Pantyfedwen**
**Pontrhydfendigaid**
**Ystrad Meurig**
**Ceredigion**
**SY25 6BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pontrhydfendigaid

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pontrhydfendigaid |
| Categori'r gofal a ddarperir | Lleoliad Nas Cynhelir |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gweneira Davies, Rosemary Whinnett |
| Person â gofal | Gweneira Davies |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8.15 a 15:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cylch Meithrin Pontrhydfendigaid |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ionawr 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/05/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Parhau i wreiddio egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Rydym wedi gofyn i’r lleoliad ddarparu astudiaeth achos arfer orau ar ddefnyddio’r ardal allanol i wella medrau plant.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn symud o gwmpas y gwahanol ardaloedd yn hyderus ac yn dewis adnoddau'n  synhwyrol i'w defnyddio yn eu chwarae. Er enghraifft, mae ychydig yn dewis chwarae gyda'r tŷ doliau tra bod eraill yn chwarae gyda'r tywod ar dractorau.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n hollol gartrefol yn y lleoliad ac maent wrth eu boddau yn mynychu. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn eiddgar i chwarae. Mae unrhyw blentyn sy'n ansicr yn derbyn cymorth a chysur gan yr ymarferwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym. Mae mwyafrif o blant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad, gan wenu a chwerthin fel wrth gyflwyno eu cynnyrch i ymarferwyr gyda balchder. Maent yn dangos diddordeb mawr yn y gweithgareddau sydd ar gael. Mae gan y rhan fwyaf o blant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad. Er enghraifft, maent yn hyderus i rannu chwarae neu ryngweithio ag ymwelwyr ac maent yn ymwybodol o'r drefn arferol.

Mae rhyngweithiadau rhwng y plant ac ymarferwyr yn dda iawn ac yn gyson. Mae ymdrechion di-eiriau i gyfathrebu â'r plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu hadnabod gan ymarferwyr, er enghraifft wrth iddynt arwain â llaw neu bwyntio at adnoddau a theganau. Mae bron bob un plentyn yn hyderus i fynd at ymarferwyr i rannu newyddion, eu holi am rywbeth neu i ofyn am gymorth. Maent bob tro'n  cael ymateb da gan yr ymarferwyr, ac o ganlyniad ceir perthnasoedd cryf. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda iawn ac mae'r rhan fwyaf yn hapus i rannu eu teganau neu offer gydag eraill. Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn dangos pryder pan mae plentyn arall yn cwympo.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn hynod annibynnol, maent yn gwneud dewisiau ynglŷn â'u chwarae, yn dylanwadu ar weithgareddau ac yn hyderus wrth ymdrin ag offer. Yn ogystal, maent yn dyfalbarhau'n aeddfed ar eu tasgau am gyfnodau priodol. Er enghraifft, mae llawer o blant yn canolbwyntio'n dda gan wneud marciau a siapiau 2D yn y twb tywod gan ddefnyddio'r tractor. Maent yn golchi eu dwylo cyn bwyta unrhyw fwyd ac ar ôl chwarae rhydd. Mae'r plant yn helpu i dacluso'r teganau.

Mae bron bob un plentyn yn archwilio'r ystod eang o ardaloedd sydd ar gael yn hyderus iawn. Maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau coginio cinio Nadolig i Siôn Corn a'r corachod. Mae'r plant yn helpu i enwi a thorri'r llysiau ac yna cyfri'r  llysiau cyn eu rhoi ar y platiau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae bron bob un o'r plant yn cyd-chwarae'n bwrpasol, a'r rhan fwyaf yn gwneud o leiaf gynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad corfforol yn bwrpasol, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar eu dysgu a'u medrau gwybyddol.

Mae bron bob un o’r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau’n astud ac yn gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau’n ddiwyd wrth chwilio am esgyrn deinosoriaid sydd wedi eu claddu yn y pridd. Mae llawer yn cyfathrebu’n glir wrth ymateb i straeon, mynegi teimladau a rhannu syniadau. Er enghraifft, maent yn chwilio’r glôb gan enwi ac esgus hedfan i wledydd poeth yn yr awyren. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol am ba ddillad sydd fwyaf addas i wisgo er mwyn gweithio tu allan. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystyrlon. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn frwd i gerddoriaeth ac maent yn canu’n egniol wrth glapio enwau ei gilydd a theithio o gwmpas yr ardal allanol fel deinosoriaid.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn trin llyfrau’n hyderus, yn ystyried eu cynnwys yn gall ac yn mwynhau gwrando ar straeon gan ymateb iddynt â diddordeb. Er enghraifft, mae plant yn dwli ailadrodd stori ‘Dyma Sam’ a rhannu ei brofiadau a’i emosiynau. Mae bron bob un yn gwneud marciau’n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel pinnau ffelt, sialc a phaent ac maent yn olrhain patrymau ar lechi electronig yn ddestlus. O ganlyniad, maent yn ymgolli yn eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu’n ystyrlon.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mathemategol cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus ac mewn cyd-destunau cywir. Er enghraifft, maent yn enwi a llunio rhifau a siapiau 2D gwahanol mewn ewyn eillio, ac yn cymharu maint deinosoriaid drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel ‘bach’ a ‘mawr’, ‘hir’ a ‘byr’. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn iawn o rifau ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 5 yn hyderus, gyda’r lleiafrif yn trefnu rhifau hyd 10 yn dda. Yn ogystal, mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol wrth arbrofi ac i ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn darganfod sawl carreg sydd ei hangen i gydbwyso esgyrn deinosoriaid mewn clorian tafol a thrwy ddatrys sut i symud dŵr o un lle i’r llall.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Maent yn rheoli cerbyd o bell gan osgoi rhwystrau, defnyddio sgrin ryngweithiol i greu marciau a throsysgrifo eu henwau, ac yn defnyddio apiau pwrpasol yn briodol.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol a datrys problemau yn dda iawn trwy ystod o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan. Enghreifftiau da o hyn yw wrth ddatrys sut i adeiladu muriau o flociau swbwng a’i gludo â’i gilydd gyda ‘sment’ ewyn eillio, ac wrth ddewis gwahanol llwybrau i ddringo i frig y ffrâm ddringo cyn gwibio i lawr y llithren. Mae llawer o blant yn arbrofi a chwarae ag offerynnau taro yn hyderus wrth gyfansoddi ac wrth ganu caneuon cyfarwydd. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf yn arsylwi’n fanwl ar, ac yn llunio nodweddion eu wynebau yn ddestlus mewn drychau siâp pen.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant perthnasol ar gyfer diogelu plant ac yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn os oes pryder diogelu. Mae'r ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig. Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Er enghraifft, maent yn cwblhau rhestr wirio risgiau yn ddyddiol ac yn tacluso’r amgylchedd yn aml i leihau

peryglon. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn sychu eu trwynau, pan fo angen. Maent yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid da. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos â'r rhieni eraill i annog y teuluoedd i ddarparu ffrwythau a bocsys bwyd iach.

Mae'r ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner ac yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, yn gwrando'n astud ar eu storïau, yn parchu eu syniadau, ac yn datblygu dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n briodol. Maent yn rheoli rhyngweithiadau, yn canmol plant am eu hymdrechion ag iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud *"os gwelwch yn dda"* a *"diolch"*.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. O ganlyniad, maent yn ymateb yn dda iawn ac yn sensitif i anghenion y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd yn agos i siarad â phlant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth gadarn o ofynion y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi cymorth gofalus i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn gwneud y mwyaf o gyngor gan yr awdurdod lleol i'w cefnogi i wneud cynnydd er budd yr holl blant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn. Maent yn cynllunio i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnig profiadau diddorol a heriol i alluogi'r plant i ddysgu trwy chwarae. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creadigol a datrys problemau trwy ddewis a chymysgu ffrwythu sych gyda phridd i greu pwdin Nadolig. O ganlyniad, mae'r addysgu'n ennyn diddordebau'r plant yn fwriadus. Mae'r ymarferwyr yn parhau i fyfyrio ar ac addasu eu harfer mewn perthynas ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd â'r plant. Maent yn cefnogi ac yn annog y plant yn fedrus ac yn pwyso a mesur yn ofalus pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi'r dysgu digymell. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i dorri, gwasgu ac ymestyn toes i greu 'addurniadau' Nadolig ac yn arsylwi wrth i'r plant esblygu'r gweithgaredd i greu silwair ar gyfer y fferm. Maent hefyd yn holi cwestiynau agored a pherthnasol sy'n annog y plant i feddwl a darganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn holi'r plant sut byddent yn teithio'n ddiogel ar hyd y ffrâm ddringo neu pa danwydd byddant yn ei ddefnyddio i bweru sled Siôn Corn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion, a chanu bywiog. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog i chwilio, rhifo, didoli, a disgrifio

maint a lliw deinosoriaid a ddarganfuwyd yn y pridd. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n briodol yn unol â'u hoed.

Mae gan yr ymarferwyr weithdrefnau asesu effeithiol ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol. Maent yn datblygu cyfleoedd i fagu annibyniaeth plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn disgwyl iddynt weini bwyd a diod eu hunain amser byrbryd a thacluso wedyn. Maent yn annog plant yn fwriadus i gymryd eu tro er mwyn deall pwysigrwydd rhannu a chwrteisi.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddringo a chydbwyso, i yrru beiciau, palu a thaflu a dal peli. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel paratoi prydau bwyd yn y gegin, arbrofi â sialc a phaent, a chyfansoddi gyda'r offerynnau taro yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn briodol trwy astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Owain Glyndŵr a hanes Santes Dwynwen. Gwneir defnydd buddiol o'r dref, trwy gerdded i'r capel a'r senotaff ac ymweld â'r rhandir a'r afon i arsylwi ar natur. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau creu ymwybyddiaeth glir i'r plant o'u cynefin.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd o dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn groesawgar, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r lleoliad yn gweithredu o'r neuadd gymunedol leol, gyda mynediad i gegin, cyfleusterau toiled ac ardal awyr agored amgaeedig. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu'r preifatrwydd ac urddas briodol i'r plant. Mae'r amgylchedd dan do ychydig yn gyfyngedig, serch hyn, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal a defnydd da iawn o'r amgylchedd allanol eang a chyffrous i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd cyfan yn rhoi cyfle buddiol i ddatblygu annibyniaeth a chwilfrydedd plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r arweinwyr yn diweddaru'r asesiadau risg pwrpasol a thrylwyr yn rheolaidd ac yn eu gweithredu'n drwyadl. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch; er enghraifft, maent yn cynnal driliau tân rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd tu fewn a thu allan yn effeithiol gan sicrhau ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous. Yn yr ystafell chwarae, darperir cyfleoedd i'r plant fwynhau chwarae ag adnoddau mathemategol, creadigol, cymdeithasol, byd bach ac adeiladu. Caiff yr adnoddau hyn eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ddarpariaeth yn datblygu i gynnig mynediad di-dor i'r ardal allanol gyda'r drysau'n agored trwy'r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardal tu allan i'r eithaf i hyrwyddo chwilfrydedd plant a chynnig cyfleoedd hynod gyfoethog iddynt. Maent yn gwneud defnydd effeithiol

iawn a phwrpasol o’r ystod eang o adnoddau yn yr ardal allanol fel beiciau, ardaloedd adeiladu, plannu a dŵr a’r gegin fwd i ysgogi chwarae, dysgu a medrau’r holl blant. Mae esgidiau a dillad addas ar gael ar gyfer tywydd anffafriol, sy’n caniatáu i blant chwarae tu allan, beth bynnag yw'r tywydd. O ganlyniad, mae'r amgylchfyd yn galluogi’r plant i wneud dewisiadau da iawn wrth chwarae a dysgu'n annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinydd, yr ymarferwyr a’r pwyllgor rheoli sefydlog weledigaeth glir iawn sy’n llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad. Maent yn gweithredu’n ddiwyd i sicrhau bod eu prosesau effeithlon yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson yn neilliannau’r plant trwy gynnig profiadau hynod ddifyr ac ysgogol o fewn awyrgylch Gymreig.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy’n effeithio’n dda ar arferion y lleoliad. Gwneir defnydd effeithiol o'r cynllun datblygu er mwyn ymateb i flaenoriaethau ac mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant yn rheoliadd i fesur effaith y camau gweithredu. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn gwella’r darpariaeth yn barhaus a gwella medrau’r plant yn dda.

Mae’r person cofrestredig, yr arweinydd a’r ymarferwyr yn dîm cytûn sydd â disgwylidau uchel o’u hunain ac sy’n cydweithio’n effeithiol iawn â'i gilydd i sicrhau safonau uchel ar draws y lleoliad. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae’r person cofrestredig a’r arweinydd yn dilyn trefniadau effeithiol iawn i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. Maent yn adnabod targedau synhwyrol a phwrpasol ar gyfer gwella ac yn trefnu hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen. Er enghraifft, trefnwyd hyfforddiant trochi iaith er mwyn cefnogi gwybodaeth yr holl dîm ar sut i wella medrau Cymraeg y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau Cymraeg y plant.

Mae’r lleoliad yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon â’r holl randdeiliaid, fel y rhieni, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well.

Mae’r lleoliad yn defnyddio’r gyllideb a’r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn dda. O ganlyniad, mae agweddau penderfynol y lleoliad yn hyrwyddo profiadau cyffrous ac addysgol i’r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel ardaloedd plannu ac offerynnol yn yr ardal allanol.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau defnyddiol, fel gyda rhieni a’r gymuned leol, sydd wedi cefnogi’r lleoliad i gyfoethogi’r ardal allanol yn ddirfawr. Yn ogystal, mae berthynas gynhyrchiol â’r ysgol leol sy’n paratoi’r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023